Tud 1.

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanbedr nos Iau Tachwedd 3ydd am 7.30

Cyfarfod yn y neuadd ond gyda cyswllt zoom hefyd.

Catrin S Williams cyfieithydd adrref ar zoom.

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd adroddiad gan David Young o Snowdonia Airospace – diweddariad o beth sy'n digwydd yn y Camp. Ymunodd Delyth Williams gyda diweddariad o'r dudalen we hefyd (dros zoom)

**Diweddariad**

Nid yw yn gwybod dim byd ychwanegol am y ffordd mynediad, maent yn dal I ymdrechu. Maent wedi cael blwyddyn eitha diddorol. Mae'r "danger zone " wedi cael ei weithredu.

Gwneud treialon gyda drones – 4g a 5g gyda gwasanaeth 02 er mwyn helpu gwasanaethau fel Tim Achub mynydd.

Dechrau 2023 bydd treialon drones o long I'r tir parthed cyfarpar ynni gwynt.

Llong ofod yn un o'r hangers – I weithio yn remote – helpu yr heddlu, a'r gwasanaethau ambiwlans.

Yn y gwanwyn bydd yna dreialon gyda MOD parthed projects gyda lefelau swn.

Lawnsio ym mis Mawrth 2023 baloon.

Dal I wneud hyfforddiant gyda Colegau megis Bangor ac Aberystwyth,

Dal I wneud treialon radar.

Ni fydd unrhyw ddeifio awyr yma yn Llanbedr.

Bydd y "land yaughting" a cyd weithio gyda Grwp Rali ceir Harlech yn dal I ddigwydd. Hefyd profiad o yrru ceir drud yn dal I ddigwydd. Potensial am waith y n yr adran – "air traffic area".

Mae trafodaethau ar y gweill ar gyfer lawnsio rocedi.

Un cwyn maent wedi ei dderbyn parthed swn.

Holodd JTW – bod cryn draffic yn mynd a dod o'r Camp ar rhai digwyddiadau. Un troy n ystod gweithgaredd, bod lori yn cario offer, wedi chwalu wal ger Talwrn Bach. Angen iddynt wneud mwy o gyhoeddusrwydd pryd mae pethau yn digwydd yn y Camp.

DY – yn cytuno bod rhaid gneud mwy o hyn, a rhoi ystyried I'r Pentref a'I thrigolion a speed limits.

Dim mwy o sylwadau, a diolchodd ETH iddo am ei gyflwyniad.

**Gwefan – gan Delyth Williams**

Yn ymddiheuro bod y gwaith wedi cymerud mwy o amser nad oedd wedi meddwl. Cawsom gip olwg ar y dudalen we, a bydd yn fyw gobeithio erbyn diwedd y mis.

Nododd bod rhai pethau yn saesneg yn unig arni – megis 6 tudalen o hanes Huchenfeld. Pasiwyd bod hyn yn iawn gan nad oedd neb wedi cwyno hyd yma .

Angen rhoi diweddariad o enwau a cyswllt Cynghorwyr. Rhain gan Eth – yn barod I'w trosglwyddo.

Holodd LV a fydd posib rhoi link I dudalen fb cymunedol.  Hyn yn bosib.

Gyda cofnodion etc mae DW yn gallu trosi I pdf.  Felly dim angen I'r Clerc wneud dim yn wahanol.

Gyda e byst Cynghorwyr – bod modd rhoi gmail, ond ddim yn sicr os bydd cost ychwanegol am hyn?

Ar hyn o bryd mae'r pecyn gyda Cymru 1 yn un aur medd RW.  A fydd yr un pecyn yn bodoli yn awr?

DW am holi parthed hyn.

Diolchwyd iddi am ei Gwaith a pawb yn edrych ymlaen I bori drwy'r dudalen we Newydd.

**Ymlaen I gyfarfod o'r Cyngor**

**Presennoldeb**

Eirwyn Thomas, Helen John, Kevin Titley, Luise Vassey, Robin Ward, Gwynfor Owen CC, Annwen Hughes CC, John Evans, Jane Taylor Williams.

**Ymddiheuriadau**

Nia Jones

Zoom – David Young, Delyth Williams, Catrin S Williams.

**Datgan Buddiant** – AH, JE, a HJ, parthed cais cynllunio Tanws, Werngron

**Ceisiadau Cynllunio**

NP5/62/LB297A – newidiadau mewnol ac allanol Capel Gwynfryn

Wedi ymateb drwy ddweud dim gwrthwynebiad I'r cais.

Ond I ystyried parcio, a mynediad I'r fynwent ar gyfer claddu, ac ymweld a beddrodau.

Cais NP5/62?T143B  - trosi Hen Danws yn dy.

Cefnogi y cais yma, adeilad I deulu ifanc I gael byw ar y fferm. Cefnogi economi a Ysgol leol, ar iaith gymraeg. Pob lwc iddynt.

Cais apel Caroline Evans yn erbyn dyfarniad I wrthod ei chais am osod carafan ar ei thir ger Plas Gwynfryn.  Anfon I gefnogi ei apel.  Cyfnod o 3 mlynedd yw y cais, tram ae hi yn atgyweirio ei thy.

Derbyn Cofnodion y mis blaenorol fel rhai cywir

**Adroddiad Cyllid**

Wedi talu y biliau canlynol –

Toiledau  £4000

Pwll HAL - £2157.02

Clerc £1419.22

Neuadd x 3 = £24

J.T.Thomas paye £60

Tud 3.

HMRC £129.40

Cyfieithu £90

Banc charges  £7.00

Yn y banc mae balans o £27641.69 diwedd Hydref

Bydd angen talu swm Dyffryn Iron Design am dorri cae chwarae.

Newid eto I symiau banc  business rates 30.12.22

**Trefniant Sul y Cofio –** hyn yn ei le.  Ffurfleni cau'r ffordd wedi eu gosod.  Hysbyseb I'r Cronicle wedi ei wneud.  Angen cysylltu gyda'r Eglwys, a hefyd gyda Elin Haf i chwarae'r offeryn.

**Un Llais Cymru** – cyfarfod zoom ardal Meirionnydd Nos Fercher 9fed am 7.00

**Rheilffordd – Talwrn Bach –** Bod MLL wedi archwilio'r safle 1.11.22

Lot fawr o sbwriel o amgylch y gysgodfan ac hefyd ar y rheilffordd.  Hefyd y cysgodfan yn gollwng dwr.

Nododd HJ yn yr un modd.

Cyfarfod Rheilffordd y Cambrian – yn gallu anfon sylwadau.  Yn uno lar hyn mae RW wedi ei ddatgan:-

Pryd mae trenau Newydd yn dod?

Unrhyw sylwadau ar waith y gwirfyddolwyr – parthed cyflwr yr Orsadd? Hoffi cael unrhyw adborth.

Pryd fydd gwelliannau yn cael eu gwneud I 'r Orsadd yn Talwrn Bach?

Harlech ac Ardudwy Hamdden – Bydd posibilrwydd o drafodaethau parthed ccytunddeb Newydd I fod.  Bod cynrychiolaeth wedi bod yng Nghyngor Harlech a Dyffryn parthed diweddariad o'r sefyllfa.  Pasiwyd bod Cyngor Llanbedr yn anfon gwahoddiad iddynt at Cyngor nesaf. 1.12.22

**LLwybrau Cyhoeddus**

Bod peth Gwaith o arwyddo llwybrau wedi ei wneud.

Llwybr Gwydda – Cefnisa wedi ei wneud.

Heb neud llwybr Tyddyn Bach I Ben yr Allt Fawr hyd yma  (ar y gweill)

Llwybr Gelli las I Cae'r Meddyg wedi ei wneud.

Angen pwyllgor eto I drafod pa lwybrau sydd angen blaenoriaethu ar gyfer y presept.

**Materion Eraill**

1. Cae Deiliog – bod 2 gais am grant o wahanol ffynhonellau wedi eu gwneud tuag at cae deiliog a goals. (gan Iolyn Jones)
2. G.L.Jones – wedi derbyn I wneud y Gwaith gwelliannau I'r offer.
3. Angen cysylltu efo Iolyn Jones parthed grant Parc Cenedlaethol.

Cwynion –

Tud 4.

1. 1.Draeniau Bryn Deiliog – wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am hyn
2. Arwydd Llanbedr – sydd ar groesffordd Cwm Nantcol – wedi chwythu – wedi hysbysu CG am hyn.
3. Twll yn y ffordd – wedi burst dwr ger Bryn Teg – hwn wedi ei drwshio yn awr.

Mainc er cof – Teulu y diweddar Evie Morgan Jones yn symud ymlaen gyda Gwaith gwneud mainc er cof.
Adroddiad Cynghorwyr Sirol

1.Adroddiad gan Annwen Hughes –
Prynhawn llnau – bod 8 person wedi troi allan I helpu.
Tim tacluso ardal ni yn dod I Lnabedr mis yma.
Bod sweeper ffordd wedi bod –
Llinellau melyn – bae anabl wedi cael ei ddiddymu.
Ymestyn llinellau melyn ger Ty Mawr I Llys Brithyll – ymgynghoriad wedi cau.
Peth dryswch gyda llinellau melyn Pentre Gwynfryn.
2.Adroddwyd gan Gwynfor Owen –
Wedi delio gyda'r Twll ffordd ger Bryn Teg.
Wedi cynrychioli ar nifer o wahanol bwyllgorau.
Sefyllfa anodd gyda codi presept. Pawb angen mwy o arian – megis Awdurdod Tan.
Posteri Tlodi Tanwydd..
Cwmni Egino – I ddenu petha Newydd I Trawsfynydd a Llanbedr ( Parth Menter)
Yn holi I gael yr offer casglu sbwriel yn ol – er mwyn ei ddychwelyd I Siop Werdd, Blaenau Ffestiniog.
3.Adroddiad hyfforddiant gan Luisse – yn filch o gael y cyfle I wneud rhain, er bod nhw yn costio. Yn mynd I ranu power point gyda phawb. Angen cyflwyno plan hyfforddiant erbyn 5.11.22 (cyhoeddi ar y we)
4.Hysbysfwrdd y Pentref – yn anodd cael lle ar yr hysbysfwrdd I roi gwybodaeth y Cyngor.
5.Nododd AH bod angen cysylltu gyda Cyngor Dyffryn parthed cyfarfodydd zoom. Eth am wneud hyn.
6. RW yn nodi bod goleuadau nadolig eleni ar yr 2.12.22 – angen mwy o wirfoddolwyr ar y noson.
7. RW hefyd wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd parthed cyflwr truenus yr arwydd ar hysbysfwrdd safle bws ger y kiosg.
8. RW hefyd yn nodi gwerthfarogiad I'r system microphone ar gyfer y cyfarfod ond bod y cyflenwad internet ddim yn ddiogonol bob amser.
9. JTW – yn nodi bod LLANBEDR yn FLER iawn. Angen BIG SWEEP
Safle – ger Glennydd
Ochr allan I'r siopao.
Ochry r afon ger y steps.
Kiosg yn fler – nodi hyn gyda Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd.
Robinsons – tir o Glanffrwd hyd at y Vic.
Y ballard ar y palmant ger Wenallt yn peru trafferth I rai sydd angen parcio ar frys I fynychu'r siopa..

Diwedd y cyfarfod a diolch I bawb am eu hymroddiad